

Esgobaeth Llanelwy

MANYLION SWYDDOGION YR EGLWYS 2017

Gofynnir i Ysgrifenyddion yr Eglwys ddefnyddio'r ffurflen hon i gyflwyno manylion presennol Swyddogion y Plwyf a benodwyd yng Nghyfarfod Ffestri Blynnyddol 2017. Bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio i lunio rhifyn nesaf Cyfeiriadur yr Esgobaeth ac at ddibenion gweinyddol cyffredinol o fewn yr Esgobaeth.

NODIADAU CANLLAW

- 1) Llenwch y ffurflen yn electronig os yw hynny'n bosibl. Gallwch lwytho'r ffurflen i lawr mewn fformat MS Word o wefan yr Esgobaeth: <http://stasaph.churchinwales.org.uk>
Os nad ydych chi'n gallu llenwi'r ffurflen yn electronig, defnyddiwch feiro ddu ac ysgrifennwch yr wybodaeth mewn priflythrennau.
- 2) Llenwch bob adran o'r ffurflen. Gallai fod o gymorth cael copi o rifyn cyfredol (2016/2017) Cyfeiriadur yr Esgobaeth wrth law i gyfeirio ato.
- 3) Mewn achosion lle mae enw a manylion cyswllt swyddogion y plwyf yn union yr un fath â'r wybodaeth sydd yng Nghyfeiriadur yr Esgobaeth 2016/2017, ysgrifennwch enw'r unigolyn ac yna 'dim newid' yn y blwch perthnasol.
- 4) Gwiriwch fod yr wybodaeth yn gywir cyn ei chynnwys - er enghraifft, efallai y byddwch chi'n gwybod fod 'Mrs Jones' wedi cael ei hail-benodi'n Warden yn 2017 heb orfod gwirio, ond allwch chi fod yn siŵr fod y rhif ffôn a'r cyfeiriad e-bost sydd yn y cyfeiriadur yn gyfredol o hyd?
- 5) Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn unol â Pholisi Diogelu Data Esgobaeth Llanelwy, y mae copi ohono ar gael ar ein gwefan <http://stasaph.churchinwales.org.uk> Os yw unrhyw un o Swyddogion yr Eglwys yn dymuno i'w manylion cyswllt beidio ag ymddangos yng Nghyfeiriadur yr Esgobaeth, ticiwch y blwch optio allan perthnasol.
- 6) Defnyddiwch yr adran 'Rhagor o wybodaeth' ar ddiwedd y ffurflen os nad oes digon o le yn rhywle arall ar y ffurflen i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen, neu os ydych chi'n dymuno cyflwyno sylwadau.

Os ydych chi angen cymorth neu gyngor ynghylch llenwi'r ffurflen hon, ffoniwch Swyddfa'r Esgobaeth ar 01745 582245

Cyflwynwch y ffurflen wedi ei llenwi drwy e-bost i pamelathompson@churchinwales.org.uk

Os nad yw'n bosibl trosglwyddo'r ffurflen wedi ei llenwi drwy e-bost, postiwch hi i:

Swyddfa'r Esgobaeth, Stryd Fawr, Llanelwy LL17 0RD

Dychwelwch y ffurflen cyn gynted â phosibl, dim hwyrach na **dydd Gwener 5 Mai 2017**

Mae eich cymorth a'ch cydweithrediad yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn – diolch.